YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE CHURCH IN WALES

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Formation in community for mission

BOREOL WEDDI

MORNING PRAYER

Ystwyll / Epiphany

Y RHAGARWEINIAD

Brawddegau

"Fe'th wnaf di yn oleuni i'r cenhedloedd, i'm hiachawdwriaeth gyrraedd hyd eithaf y ddaear." *Eseia 49:6*

Gwersiglau ac Ymatebion Agoriadol

Arglwydd, agor ein gwefusau,
A'n genau a fynega dy foliant.

Canwn i ti, O Arglwydd, a bendithiwn dy enw:
A dywedwn am dy iachawdwriaeth o ddydd i ddydd.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr, ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.

Addolwch yr Arglwydd.
I'w enw ef y bo'r mawl.

Bendith Agoriadol

Dduw gogoneddus,
yr wyt yn dy ddatguddio dy hun i'r byd
ac yn ein galw ni i fod yn offeiradaeth frenhinol,
i foliannu Crist
a'n galwodd ni o dywyllwch
i'w ryfeddol oleuni ef.
Bydded inni ein hoffrymu ein hunain yn aberth byw,
sanctaidd a derbyniol i ti,
Frenin pob brenin ac Arglwydd pob arglwydd.
Bendigedig fyddo Duw am byth.

Cantiglau

(Cantiglau: Cân am y Cyfamod td. 158
Daeth dy Oleuni td. 162
Cân y Rhai a Brynwyd td. 194)

THE INTRODUCTION

Opening Sentence

"I shall appoint you a light to the nations so that my salvation may reach earth's farthest bounds." *Isaiah 49:6*

Versicles and Responses

O Lord, open our lips,
And our mouth shall proclaim your praise.

We sing to you, O Lord, and bless your name,
And tell of your salvation from day to day.

Glory to the Father, and to the Son, and to the Holy Spirit;
As it was in the beginning, is now, and shall be for ever. Amen.

Worship the Lord.
All praise to his name.

Opening Prayer of Blessing

Glorious God,
you reveal yourself to the world
and call us to be a royal priesthood,
to show forth the praises of Christ
who has called us out of darkness
into his marvellous light.
May we present ourselves as a living sacrifice,
holy and acceptable to you,
King of all kings and Lord of all lords.
Blessed be God for ever.

Canticle

(Canticles: A Song of the Covenant pg. 159
Your Light has Come pg. 163
A Song of the Redeemed pg. 195)

GWEINIDOGAETH Y GAIR

Salm

Bydd pob salm a benodwyd am y dydd yn diweddu gyda:
Gogoniant i'r Tad, / ac i'r / Mab:
Ac / i'r - / Ysbryd / Glân;
fel yr oedd yn y dechrau * y mae yn awr, ac y / bydd yn / wastad,
yn oes / oesoedd. / A - / men.

Y Darlleniad o'r Hen Destament

Cyn y Darlleniad:
Darlleniad o …

Ar ôl y darlleniad:
Dyma ddiwedd y darlleniad o'r Hen Destament.

Distawrwydd.

Cantigl o'r Efengyl

Ant: Addolwch yr Arglwydd mewn prydferthwch sancteiddrwydd,
ofned yr holl daear ger ei fron ef.

Bendigedig fyddo / Arglwydd· Dduw / Israel:
am iddo ymweld â'i / bobl a'u / prynu i / ryddid;

Cododd waredigaeth / gadarn· i / ni:
yn/ nhŷ- / Dafydd· ei / was –

Fel y llefarodd trwy enau ei bro/ffwydi / sanctaidd:
yn yr / oesoedd / a - / fu-

Gwaredigaeth / rhag· ein ge/lynion:
ac o afael / pawb· sydd yn / ein ca/sáu;

THE MINISTRY OF THE WORD

Psalmody

Each psalm ends with:
Glory to the Father, and / to the / Son:
And / to the / Holy / Spirit;
As it was in the be / ginning, is / now:
And shall be for / ever. / A / men.

Old Testament Reading

Before the reading:
A reading from …

After the reading
Here ends the Old Testament Reading.

Silence

Gospel Canticle

Ant: Worship the Lord in the beauty of holiness
let the whole earth stand in awe of him.

Blessed be the Lord the / God of / Israel *
for he has come to his / people · and /set them /free.

The Lord has raised up for us a / mighty / Saviour *
born of the / house of his / servant / David.

Through his holy prophets God promised of old
to / save us · from our / enemies *
from the / hands of / all who / hate us.

To show / mercy · to our / forebears *
and to re/member · his / holy / covenant.

Fel hyn y cymerodd drugaredd / ar ein · hyn/afiaid:
a / chofio· ei gy/famod / sanctaidd,

Y llw a dyngodd wrth / Abraham · ein / tad:
y rhoddai inni gael ein / hachub · o / afael · ge/lynion,

A'i addoli yn ddi-ofn mewn sancteiddrwydd / a chyf/iawnder:
ger ei fron ef / holl - / ddyddiau· ein / bywyd.

A thithau, fy mhlentyn, gelwir di yn / broffwyd · y Go/ruchaf:
oherwydd byddi'n cerdded o flaen y Arglwydd i / bara/toi ei / lwybrau,

I roi i'w bobl wybodaeth am / ware/digaeth:
trwy fa/ddeuant / eu pe/chodau.

Hyn yw trugaredd / calon· ein / Duw:
fe ddaw â'r wawrddydd / oddi / uchod · i'n / plith,

I lewyrchu ar y rhai sy'n eistedd yn nhywyllwch / cysgod / angau:
a chyfeirio ein / traed i / ffordd tang/nefedd.

Gogoniant i'r Tad, / ac i'r / Mab:
Ac / i'r - / Ysbryd / Glân;
fel yr oedd yn y dechrau * y mae yn awr, ac y / bydd yn / wastad,
yn oes / oesoedd. / A - / men.

Ant: Addolwch yr Arglwydd mewn prydferthwch sancteiddrwydd,
ofned yr holl daear ger ei fron ef.

Y Darlleniad o'r Testament Newydd

Cyn y darlleniad:
Darlleniad o …

Ar ôl y darlleniad:
Dyma ddiwedd y darlleniad o'r Testament Newydd.

Distawrwydd

This was the oath God swore to our / father Abraham *
to set us / free · from the / hands of · our / enemies,

Free to worship him / without fear *
holy and righteous before him / all the / days of· our life.

And you, child, shall be called the prophet / of the Most / High *
for you will go before the / Lord· to prepare his / way,

To give his people knowledge / of sal/vation:
by the for/giveness· of / their sins.

In the tender compassion / of our God *
the dawn from on / high shall / break up/on us,

To shine on those who dwell in darkness
and the / shadow · of / death *
and to guide our feet / into the / way of / peace.

Glory to the Father, and / to the / Son,
and / to the / Holy / Spirit;
As it was in the be/ginning, is / now,
and shall / be for / ever. / A/men.

Ant: Worship the Lord in the beauty of holiness
let the whole earth stand in awe of him.

New Testament Reading

Before the reading:
A reading from …

After the reading
Here ends the New Testament Reading.

Silence

Y GWEDDÏAU

Ymbiliau

Ymatebion:
Tywys ni, O Dduw, mewn llawenydd,
i rodio yng ngoleuni dy ogoniant.

Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddïwn yn eofn:
Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw;
deled dy deyrnas; gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.

Colectau

Colect y Dydd…

Yr ail golect, am dangnefedd:
O Dduw, awdur tangnefedd a charwr cytundeb,
y mae dy adnabod di yn fywyd tragwyddol,
a'th wasanaethu yn rhyddid perffaith:
amddiffyn ni rhag holl ymosodiadau ein gelynion,
fel, a ninnau'n llwyr ymddiried yn dy nodded,
nad ofnwn allu neb o'n gwrthwynebwyr;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Y trydydd colect, am ras:
Dragwyddol Dduw a Thad,
y crewyd ni trwy dy nerth
a'n prynu trwy dy gariad,
tywys a nertha ni â'th Ysbryd,
fel y gallwn ein rhoi ein hunain i ti
mewn cariad ac mewn gwasanaeth i'n gilydd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

THE PRAYERS

Intercessions

Response:
Lead us, God, with joy
to walk in the light of your glory.

Lord's Prayer

As our Saviour taught us, we boldly pray:
Our Father, who art in heaven, hallowed be thy name;
thy kingdom come; thy will be done;
on earth as it is in heaven. Give us this day our daily bread.
And forgive us our trespasses, as we forgive those who trespass against us.
And lead us not into temptation; but deliver us from evil.
For thine is the kingdom, the power and the glory,
for ever and ever. Amen

Collects

Collect of the day…

Collect for peace:
O God, the author of peace and lover of concord,
To know you is eternal life,
To serve you is perfect freedom:
Defend us in all assaults of our enemies,
That we, surely trusting in your protection,
May not fear the power of any adversaries;
Through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Collect for grace:
Eternal God and Father,
by your power we are created
and by your love we are redeemed:
guide and strengthen us by your Spirit,
that we may give ourselves to you
in love and service of one another;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Y DIWEDDGLO

Bydded i Dduw Dad,
a arweiniodd y doethion â seren ddisglair
i ddod o hyd i'r Crist, llewyrch o lewyrch,
eich arwain chwithau yn eich pererindod i ddod o hyd i'r Arglwydd.
Amen.

Bydded i Dduw Fab,
a droes y dŵr yn win yn y wledd briodas yng Nghana,
drawsffurfio eich bywydau a llonni eich calonnau. **Amen.**

Bydded i Dduw Ysbryd Glân,
a ddisgynnodd megis colomen ar ei Fab, yr Anwylyd,
yn afon Iorddonen,
dywallt ei roddion arnoch chwi,
a olchwyd yn nyfroedd yr ailenedigaeth. **Amen.**

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Bendithiwn yr Arglwydd.
Diolch a fo i Dduw.

neu:

Gras ein Harglwydd Iesu Grist,
a chariad Duw
a chymdeithas yr Ysbryd Glân
a fyddo gyda ni oll byth bythoedd. Amen

©2010 Church in Wales Publications

THE CONCLUSION

May God the Father,
who led the wise men by the shining of a star
to find the Christ, the light from light,
lead us also in our pilgrimage to find the Lord. **Amen.**

May God the Son,
who turned water into wine at the wedding feast at Cana,
transform our lives and make glad our hearts. **Amen.**

May God the Holy Spirit,
who, at the river Jordan,
descended upon the Beloved Son, in the likeness of a dove,
pour out his gifts on us
who have been washed in the waters of new birth. **Amen.**

The Lord be with you.
And also with you.

Let us bless the Lord.
Thanks be to God.

Or:

The grace of our Lord Jesus Christ,
the love of God
and the fellowship of the Holy Spirit
be with us all, evermore. Amen.

©2010 Church in Wales Publications



Cyf / Ref 2420